# Cynnal a chadw ac atgyweirio offer a pheiriannau LEGACY

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys cynnal a chadw ac atgyweirio offer a pheiriannau. Gall yr offer a'r peiriannau fod yn rhai llaw neu fecanyddol.

Mae cynnal a chadw yn cynnwys gwirio'r offer neu'r peiriannau yn rheolaidd fel yr argymhellir gan y cynhyrchwyr. Gwneir hyn er mwyn cynyddu perfformiad a chynyddu bywyd gwaith yr offer neu'r peiriannau. Mae hefyd yn cynnwys yr atgyweiriadau sydd eu hangen oherwydd diffygion neu namau. Byddwch yn gwneud yr holl weithgareddau yn unol â manylebau.

Wrth weithio gyda pheiriannau neu offer dylech fod wedi cael hyfforddiant ac yn meddu ar dystysgrif gyfredol, lle bo angen.

Wrth wneud eich gwaith mae'n rhaid i chi ystyried yr effaith y bydd yn ei gael ar yr amgylchedd.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer y rheiny sydd yn cynnal a chadw fel mater o drefn ac yn atgyweirio offer a pheiriannau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. bod yn ymwybodol o'r peryglon sydd yn gysylltiedig â'r gweithgaredd i'w gyflawni
2. gwisgo dillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) addas
3. paratoi, defnyddio a chynnal a chadw offer, cyfarpar a pheiriannau, yn ddiogel ac yn gywir
4. adnabod a pharatoi'r offer a'r peiriannau sydd angen eu cynnal a'u cadw neu eu hatgyweirio
5. lleoli'r cyfarwyddiadau a'r manylebau cynnal a chadw perthnasol ar gyfer yr offer a'r peiriannau
6. gwirio bod yr offer a'r peiriannau y mae angen eu cynnal a'u cadw neu eu hatgyweirio yn ddiogel a'u bod wedi cael eu paratoi'n iawn
7. cymryd y rhagofalon cywir er mwyn atal sylweddau rhag dianc a lleihau peryglon yn sgîl halogiad a chemegau peryglus lle bo angen
8. cadw'r ardal waith yn ddiogel ac mewn cyflwr sydd yn addas ar gyfer gwaith cynnal a chadw neu atgyweirio
9. casglu cydrannau/rhannau newydd sy'n ofynnol i gwblhau'r gwaith
10. adnabod a nodi'r cydrannau at ddiben eu datod a'u hailosod
11. gwneud y gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio offer a pheiriannau, yn unol â chyfarwyddiadau a manylebau a deddfwriaeth berthnasol
12. ailosod a phrofi offer a pheiriannau os oes angen, ar ôl eu cynnal a'u cadw neu eu hatgyweirio
13. glanhau, gwasanaethu a storio offer cynnal a chadw, yn ddiogel ac yn gywir
14. parhau i gyfathrebu gyda chydweithwyr ac eraill sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo
15. gwaredu gwastraff yn ddiogel ac yn gywir, yn unol â'r cyfarwyddiadau
16. gwneud eich gwaith yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau sefydliad
17. cwblhau cofnodion yn ôl gofynion deddfwriaeth berthnasol a'r sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y peryglon sydd yn gysylltiedig â chynnal a chadw ac atgyweirio offer a pheiriannau
2. y math o ddillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) addas ar gyfer y gweithgaredd
3. y math o offer, cyfarpar a pheiriannau sy'n ofynnol i wneud y gwaith cynnal a chadw neu atgyweirio a sut i baratoi, defnyddio, cynnal a storio'r rhain yn ddiogel ac yn gywir
4. yr offer neu'r peiriannau sydd angen eu cynnal a'u cadw neu eu hatgyweirio a'r hyn sydd angen ei wneud
5. y rhesymau dros gynnal a chadw offer a pheiriannau a chanlyniadau posibl peidio â gwneud hynny
6. y gofynion deddfwriaethol perthnasol yn ymwneud â chynnal a chadw offer a pheiriannau
7. gofynion y cynhyrchydd ar gyfer cynnal a chadw offer a pheiriannau
8. y gweithredoedd a allai wneud gwarant y cynhyrchydd yn annilys
9. ble i ddod o hyd i'r cyfarwyddiadau a'r manylebau cynnal a chadw ar gyfer yr offer a'r peiriannau
10. sut i adnabod diffygion a namau ar offer a pheiriannau
11. y dulliau o baratoi offer a pheiriannau ar gyfer cynnal a chadw neu atgyweirio
12. y peryglon sy'n cael eu creu gan ynni sy'n cael ei storio a sut dylid trin y rhain yn y cyfnod paratoi
13. y cemegau a'r sylweddau peryglus a allai fod yn bresennol a sut i drin y rhain
14. y gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer cael cydrannau/rhannau newydd
15. sut i nodi cydrannau ar gyfer eu datod a'u hailosod a'r rhesymau dros wneud hyn
16. y dulliau o ailosod a phrofi offer a pheiriannau ar ôl eu cynnal a'u cadw neu eu hatgyweirio, lle bo angen
17. lefel eich cyfrifoldeb mewn perthynas â chynnal a chadw neu atgyweirio offer a pheiriannau, ac at bwy i gyfeirio problemau
18. pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo a sut dylid gwneud hyn
19. sut i drin, cludo, storio a gwaredu gwastraff a chemegau a sylweddau peryglus, yn unol â gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol

20. yr effaith bosibl y gallai eich gwaith ei gael ar yr amgylchedd a'r ffyrdd y gellir lleihau hyn
21. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, codau ymarfer a pholisïau sefydliad
22. y cofnodion y mae angen eu cadw a phwysigrwydd eu cwblhau

## Cwmpas/Ystod

A paratoi'r offer a'r peiriannau canlynol ar gyfer eu cynnal a'u cadw:

(i) llaw

(ii) mecanyddol

B cael a pharatoi'r offer canlynol a ddefnyddir i wneud gwaith cynnal a chadw:

(i) offer llaw

(ii) offer pŵer

## Geirfa

Gallai **cemegau a sylweddau peryglus** gynnwys:

- tanwydd
- olew
- hylifau
- nwyon
- llwch
- aer cywasgedig

**Cyfarwyddiadau a manylebau:**

- darluniau/cynlluniau
- amserlenni
- datganiadau dull
- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOP)
- Canllawiau'r cynhyrchydd
- gofynion cwsmeriaid
- cyfarwyddiadau llafar

**Ynni wedi ei storio:**

- sbringiau
- tyndra belt
- pwysedd hydroleg
- gollyngiad trydan

**Gwastraff**: gallai gynnwys deunyddiau peryglus a deunyddiau nad ydynt yn beryglus.

## Cysylltiadau â SGC eraill